Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam a'r Fro 2011

Amodau & Thelerau tocynnau yr Eisteddfod

1. Gall yr artistiaid a'r atyniadau a restrir gael eu newid heb rybudd.

2. Ni roddir ad-daliadau ar wahân i ddigwyddiadau a ohirir.

3. Ni ellir trosglwyddo tocynnau. Annilys os y'i gwerthir.

4. Caniateir mynediad i Faes yr Eisteddfod yn unig wedi cyflwyno tocyn dilys. Er mwyn hwyluso diogelwch a mwynhad pob ymwelydd mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dal yr hawl i wrthod mynediad ac i ad-dalu gwerth y tocyn.

5. Ni all Eisteddfod Genedlaethol Cymru dderbyn cyfrifoldeb am ddifrod, colledion neu anafiadau personol a ddioddefwyd yn y digwyddiad hwn gan gynnwys difrod a cholled i eiddo a cherbydau modur, os y digwyddodd o ganlyniad i esgeulustod y deiliad tocyn neu o ganlyniad i weithredoedd mynychwyr eraill nad oedd modd eu rhagweld.

6. Ni fydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ail-argraffu copi o docynnau a gollwyd neu a gawsant eu dwyn.

7. Ni chaniateir o gwbl unrhyw fasnachu o fewn i Faes yr Eisteddfod heb ganiatad Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

8. Ni all tocynnau gael eu defnyddio fel unrhyw ran o ymgyrch ar gyfer marchnata, gan y cyfryngau, nac er dibenion gwerthiant, boed yn fasnachol neu yn anfasnachol, heb yn gyntaf gael caniatad ysgrifenedig Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

9. Fel amod o'r gwerthiant, mae deiliaid tocyn yn cytuno i gael eu ffilmio neu i recordiad sain (trwy gyfrwng radio, teledu, y rhyngrwyd neu unrhyw gyfrwng sy'n hysbys ar hyn o bryd) gael ei wneud ohonynt sy'n cyfrannu at weithgareddau neu fel rhan o gynulleidfa.

- Unwaith y mae tocyn wedi ei brynu, ni all gael ei drosglwyddo, ei gyfnewid, ei ddychwelyd, na derbyn ad-daliad amdano heblaw os gohirir y digwyddiad, ei newid i ddyddiad arall, neu os oes newid sylweddol ym manylion y digwyddiad wedi i archeb gael ei gwneud (ystyrir newid sylweddol fel newid yn y sawl sy'n serennu (cyngherddau yn unig), yn y lleoliad neu yn amser y sioe).

- Yn achos gohirio unrhyw ddigwyddiad (h.y. gohiriad oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Eistedfod Genedlaethol Cymru), bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ad-dalu gwerth gwreiddiol y tocyn. Bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn gwneud eu gorau glas i gysylltu a phrynwyr naill ai trwy ffôn, e-bost neu lythyr (gan ddefnyddio'r manylion a roddwyd wrth archebu'r tocynnau) a'u cynghori i ddychwelyd y tocynnau. Sylwer, fodd bynnag, mai cyfrifoldeb y cwsmer yw gwirio a yw digwyddiad yn cael ei gynnal ar y dyddiad y'i trefnwyd, ac ar yr un amser yn yr un lleoliad, ac ni all Eisteddfod Genedlaethol Cymru warantu y byddant yn hysbysu'r cwsmer o unrhyw newid i ddyddiad, amser na lleoliad digwyddiad. Rydym yn argymell i gwsmeriaid ddefnyddio cludiant post wedi'i ddiogelu wrth ddychwelyd tocynnau. Ar eu derbyn, bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ad-dalu gwerth gwreiddiol y tocynnau i'r cwsmer gan ddefnyddio'r un dull ag a ddefnyddiwyd i dalu amdanynt yn y man cyntaf.

- Pe symudir digwyddiad o'r lleoliad a gafodd ei hysbysebu a/neu pe newidir y dyddiad, gall tocynnau a brynwyd eisoes barhau yn ddilys pe dymunai'r cwsmer fynychu'r digwyddiad ar ei newydd wedd. Fel arall, bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ad¬dalu gwerth gwreiddiol y tocynnau. Bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn hysbysu prynwyr naill ai trwy ffôn, e-bost neu lythyr (gan ddefnyddio'r manylion a roddwyd wrth archebu'r tocynnau) i gynghori ar ddilysrwydd y tocynnau a'r drefn i'w dilyn i gael ad-daliad. Fel arfer, derbynnir ceisiadau am ad-daliadau hyd at wythnos cyn y digwyddiad ar ei newydd wedd, neu dri diwrnod wedi i newid gael ei wneud yn hysbys (pa un bynnag yw'r diweddaraf) os na nodir yn wahanol. Yn achos newid byr-rybudd (o fewn wythnos i ddigwyddiad) bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn hysbysu prynwyr o'r amodau perthnasol, gan gynnig ad-daliad os nad ydynt yn hapus a hwynt. Noder, fodd bynnag, mai cyfrifoldeb y cwsmer yw gwirio a yw digwyddiad yn cael ei gynnal ar y dyddiad y'i trefnwyd, ac ar yr un amser yn yr un lleoliad, ac ni all Eisteddfod Genedlaethol Cymru warantu y bydd yn hysbysu'r cwsmer o unrhyw newid i ddyddiad, amser na lleoliad digwyddiad.

- Os nad ymddengys y sawl sy'n serennu neu fod trefn neu gynnwys y digwyddiad wedi newid yn sylweddol o'r drefn neu'r cynnwys a hysbysebwyd (cyngherddau yn unig), yna bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ad-dalu gwerth gwreiddiol y tocyn.

- Os nad yw Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn gallu cwblhau archeb am unrhyw un o'r rhesymau isod, bydd y cwsmer yn gallu hawlio ad-daliad llawn, gan gynnwys unrhyw ffi archebu a godwyd:

    - Fod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn anfon eich archeb i'r cyfeiriad anghywir ac yn methu darparu tocynnau yn eu lle.

    - Nad yw Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn anfon eich archeb nac yn gwneud trefniant i'r tocynnau fod ar gael i'w casglu.

- Fod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn anfon yr archeb anghywir, h.y. y digwyddiad anghywir/y math anghywir o docynnau.

- Unrhyw amgylchiadau lle bu Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn esgeulus neu wedi torri cytundeb.

- Cynghorir cwsmeriaid i wirio eu pryniad wrth ei dderbyn.

- Cyfrifoldeb y cwsmer yw hysbysu Eisteddfod Genedlaethol Cymru o unrhyw newid cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt neu gyfeiriad e-bost, cyn ac ar ôl derbyn eu nwyddau. Noder mai ein hoff ddull cyswllt ar gyfer cwsmeriaid sydd yn archebu ar-lein yw e-bost, felly dylid cymryd gofal i ddarparu cyfeiriad e-bost dilys a chyfredol.

- Cedwir yr hawl i ganiatau mynediad i ddigwyddiad gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac/neu cynrychiolwyr lleoliad y digwyddiad, a all gymryd pryderon iechyd a diogelwch, pryderon amgylcheddol a rhai yn ymwneud a diogelwch i ystyriaeth yn ôl ewyllys resymol, ac a all o bryd i'w gilydd gynnal archwiliad diogelwch. Hoffai Eisteddfod Genedlaethol Cymru gynghori cwsmeriaid na chynigir ad-daliadau i gwsmeriaid y gwrthodir mynediad iddynt neu sy'n cael eu hebrwng o'r digwyddiad oherwydd iddynt gyrraedd yn hwyr, nac i gwsmeriaid sy'n gwrthod cael eu chwilio, nac i rai sy'n ymddwyn yn sarhaus, yn fygythiol, yn feddw, neu sy'n ymddwyn yn wrth-gymdeithasol (gan gynnwys ysmygu mewn ardaloedd di-fwg), yn cario arfau ffiaidd neu sylweddau anghyfreithlon, neu yn gwneud recordiadau sain, fideo neu yn tynnu lluniau a chamra heb i hynny gael ei awdurdodi yn gyntaf.

- Os daw yn anymarferol i bostio tocynnau, oherwydd agosrwydd digwyddiad neu oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, rydym yn dal yr hawl i sicrhau fod tocynnau ar gael i'w casglu yn y lleoliad yn union cyn y digwyddiad. Hysbysir cwsmeriaid trwy ffôn, e-bost neu lythyr (gan ddefnyddio'r manylion a roddwyd wrth archebu) pe daw hyn yn angenrheidiol.

- Wrth archebu rydych yn cytuno fod y tocynnau ar gyfer eich defnydd personol chi a'ch parti yn unig, ac na chant eu hailwerthu na'u trosglwyddo. Bydd unrhyw ailwerthiant, neu ymgais i ailwerthu am bris uwch na'r pris gwreiddiol yn golygu y caiff eich archeb eu dileu heb unrhyw ragrybudd.

- Os yw cwsmer yn archebu mwy o docynnau na'r mwyafswm a ganiateir ac a nodir yn ystod y broses archebu, rydym yn dal yr hawl i ddileu'r archeb. Mae'r mwyafswm yn berthnasol fesul person/cerdyn/cartref.

- Os yw tocynnau sydd wedi eu hanfon a Dosbarthiad Arbennig yn cael eu dychwelyd at Eisteddfod Genedlaethol Cymru gyda'r cyfarwyddwyd - "Mae'r un y cyfeirir y llythyr ato yn anhysbys", rydym yn dal yr hawl i ddileu'r archeb.

- Ni fyddwn yn rhannu eich manylion personal ar gyfer dibenion marchnata nac ar gyfer unrhyw ddiben wall heb eich caniatad ar wahan i pan fo hynny'n ofynnol yn gyfreithiol.